# MAE HI'N NADOLIG

**CYTGAN** *Canwn fawl, cân o lawenydd yw,*
*Mae hi'n Nadolig, ganwyd Crist,*
*Canwn fawl, fe anwyd Crist Fab Duw,*
*Mae hi'n Nadolig, ganwyd Crist.*

1 Cân angylion fry uwchben y bryniau,
Ddaeth i'n harwain i'r stabal,
Lleisiau'n canu 'Deuwch ac addolwch',
Ninnau oll yn gweld y Ceidwad.

**CYTGAN**

2 Yn yr awyr, seren yn disgleirio,
Ddaeth i'n harwain i'r stabal,
Bethlehem sy'n cysgu'n dawel heno,
Ninnau oll yn gweld y Ceidwad.

**CYTGAN**

3 Gair lefarwyd gan yr hen broffwydi,
Ddaeth i'n harwain i'r stabal,
Neges Duw i'r byd sy'n llawn trybini,
Ninnau oll yn gweld y Ceidwad.

**CYTGAN**

4 Neges glywyd drwy yr holl ganrifoedd,
Ddaeth i'n harwain i'r stabal,
Gobaith Duw ar gyfer yr holl bobloedd,
Ninnau oll yn gweld y Ceidwad.

**CYTGAN x 2**
*Mae hi'n Nadolig, ganwyd Crist.*

Geiriau a cherddoriaeth gan Mark a Helen Johnson, cyf. Ann Fychan
Hawlfraint © 2002 & 2009 Out of the Ark Ltd, Surrey KT12 4RQ
CCLI Song No. 3701944